

Geiriau / Lyrics

1. Mor dda i mi.

Rho dy ben ar dy glustog, roi mhen i ar f'un i,
Ac edrych i dy lygaid di, yn dyfn i dy lygaid di,
O chdi, ti mor dda i mi.

Yn ein breichia cysgom drwy y nos, eira'n disgyn ar y tô,
Ffyrdd i gyd 'di cau, s'dim raid i ni fynd i'r gwaith,
O Eira, ti mor dda i ni.

**Cynwn dan i gnesu'r enaid
Y petha lleia sydd o hyd yn well.
Na holl stwr a swyn y byd,
Codwn wydr at ein iechyd.**

**Dw dw dw.....
Chdi, ti mor dda i mi.**

Fflama coch yn cnesu'r aelwyd,
Mwg yn codi dros y to,
Allan awn i'r eira, hoel traed ar ein ol,
O traed, sy mor dda i ni.

Cnesu'r galon cnesu'r enaid.....

**Ti mor ddi mi a dwisho bod mor dda i ti.
Dwisho bod mor dda i ti a ti mor dda i mi.**

2. Ellis Humphrey Evans

1917 yn Nhrawsfynydd, Sir Feirionydd,
Roedd Ellis Humphrey Evans yn bugeilio ar y mynydd,
Roedd o'n dipyn o fardd, caru merched hardd y fro,
A swyn yr afon Prysor r'oth yr awen iddo fo.

Ond ar fore oer o Chwefror, daeth dyn o'r orfodaeth at y ffarm,
Yn erbyn ei ewyllys, a pharch at hen Bob bach,
I ryfel roedd rhaid mynd pob un cam

Felly ffwrdd a fo i Lerpwl i ymuno ar bataliwn,
Ei hyfforddi o i ymladd, yn lle ffon roedd ganddo wn.
Er fod o allan o'i gynhefin, allan o'i fro,
Roedd cadw pen ar bapur yn rhoi rhyddid iddo fo.

Câs oedd y swyddogion, ar sarjant yn gwaeddi yn ei glust,
Am farddoni'n iaith y nefoedd, er yr holl anhegwch,
Ei awen oedd yn gryf a Duw yn dyst!

"Penna fyny hogia 'da chi'n barod ac yn iach,
I hwyllo i wlad arall, a cwffio dros eich gwlad.
Mae'r gynna' yn eich dwylo, mae'r gelyn ochr draw.
Peidiwch a chynhyrfu, cewch chi fedal yn eich llaw!"

Dydd ola o Orffenaf, a'r hogia yn y ffosydd,
Yn gawl o emosiynau, a hiraeth yn y pridd
Mae'r frwydr ar fin dechrau, brwydr mwya'r byd,
"Be ddaw o hyn?", gofynwyd, "Rhy hwyr mae'n rhai'ni fynd!"

Mewn a nhw i'r hunllef, o ffrwydriadau, mwg a gynnu gwyllt,
Lle lladdwyd Ellis Evans,
Nose cap yn ei fol, mae'n colli gwaed yn sydyn,
Neb yn disgwyl, ble mae'r cymorth, pawb yn symyd ymlaen.

Fano ar ei liniau, yn ei ddyrnau dim ond pridd,
Meddyliodd am ei gartre yn Nhrawsfynydd, Sir Feirionydd
Ni glywodd mwy yr arfau, na swyn y tanciau trwm,
'Dim ond swyn yr hen afon Prysor yn canu yn y cwm.'

3. Byd i'w weld yn grwn.

Hei, sut wyt ti'r hen ffrind?
Ble mae'r amser di mynd?
Atgofion yn hel fel dail yn nghornel y co.
Ti'n cofio'r fro? Ar haf?

Es i lawr nol i'r adfail, ma rhywyn di brynu fo
Ai droi o i ryweth gwerth pres.
Ond chwalais y walia efo'r gordd yn fy mhen,
Chwythodd ryw wynt ac aeth y dail i gyd mewn.

Hei, ti cofio chwarae fan hyn?
Doedd nam to ac y lle yn chwyn i gyd
Dim ffenest na drws a brain yn y corn.
Ond castell oedd hwn, i ni.

Roedd rhaid cadw golwg, a'i warchod on dda,
Neu bydd eraill yn ymosod drwyr haf,
Ond y ni oedd Llywelyn, ac Owain Glyndwr,
A doedd neb digon dewr i gipio ein twr.

**Yn y bywyd hwn, ti'n goru cysgu efo dy wn
Ond pan o' ti'n llai a dy ddyrnau'n llawn cnau,
Oedd y byd i weld yn grwn.**

Ti'n cofio, pan ddaeth y genod gyd draw,
Ein tywysogesa, ein gwagedd i fod
Ond ble mae nhw rwan? Ti di clywed unrhyw son?
Dy nhw'n byw lawr y lon? Ta bell i ffwrdd?

Nhw oedd yn cwicio ar stof anweledig,
A troi ein castell yn dy,
A chwarae ty bach yn lle goodies a baddies,
A'n gyrru ni weithio i fwydo y babis i gyd

O wel, teimlais yn iau am ryw hyd,
Ffarweliais ein teml ein castell, ein ty,
Mae'n anodd dwi'n gwbod, bod plentyndod wedi mynd,
Ond mae'r co gael o'n nol, am chydig.

Chwythodd y dail yn ol i fy ngho.
A codais y walia yn ol.
A cyn i mi ffoi, daeth ryw ddyn at y drws,
A deud, "Get off my land or I'll phone the police!"

4. Gerallt Gymro

Hei Gerallt Gymro, i le wyt ti yn mynd?
Gai ddod efo chdi? Nei di ddangos i mi y ffordd?
A deu'tha i, sut wyt ti mor gryf?
Gerallt Gymro, a dy holl anrhegion
Gan feirdd ac enwogion.
A'r genod tlysa yn y byd

Ia chdi, mae pawb tu ol i ti, a chdi syn arwain y ffordd.
Ymlaen a ni, i le bynnag wyt ti isho mynd,
Mae'r ffordd yn glir, jyst dada di fy ffrind
Gerallt Gymro, dy wen sy'n heulo,
Ac yn llenwi'r stafell,
A cynhesu pawb efo dy ffydd.

Ie, ie, mae na stori i pob stryd, pob llwybr, pob cornel a cae.
Dim cwyn na ffrae, eraill sydd yn ffol,
Sy'n cwyno am ryw betha bach sy'n meddwl dim byd at all,
Gerallt Gymro, a dy holl helyntion,
Fel hen bererin,
A dy ddwrn i fyny yn yr uchel fry.

Hei, Gerallt Gymro, y cochion di'r timau i ti,
A coch di'r ddraig sydd ar dy arddwn di
Fel coch y gwaed, sy'n cadw pawb i fynd,
Gerallt Gymro, a dy holl anrhegion
Gan feirdd ac enwogion
A'r genod tlysa yn y byd
Gerallt Gymro, dy wen sy'n heulo
Ac yn llenwi'r stafell
A goleuo pawb efo dy ffydd.
Gerallt Gymro, a dy holl helyntion,
Fel hen bererin,
A dy ddwrn i fyny yn yr uchel fry.

Llefydd da a llefydd hurt

Lawr yr allt awn i yno yn gynt
I lefydd llawn, llawn o fobl da
Syn licio partis drwy yr ha
Ac yn y gaeaf rhai ni wyllo'r rhew,
Ond awn ni mlaen drwy yr eira tew,
Am yr aur ochr arall ir enfys
I rywle lliwgar, rywle hapus,
Er yr holl glwydi, sy'n slofi ni i lawr,
Da ni'n cyrraed o hyd, a mae na groeso.

5. Merch o'r Ffatri Wlân

Meic Stevens

Dim ond merch o'r ffatri wlân,
Wrth ei gwaith bob dydd,
Heb sylwi dim ar y byd mawr oddi allan.
Roedd ei gwallt mor ddu a thlws,
Fel ryw freuddwyd rhyfedd yn fy nghwsg,
Ond mae'n gwneud gwaith dyn bob dydd am ei chyflog.

Rhwng y gwreiddiau dwfn a'r brwyn,
Dan y gamlas fach sy'n rhuthro'i swyn,
Mor araf mae'r olwyn hen, yn troi'r peiriannau;
Ac mae'r dyn yn tanio'r tân,
Lle mae Jac ar bois yn golchi'r gwlan
Ond mae'r gwŷr yn dal i wau ar y glannau.

Dim ond merch o'r ffatri wlan,
Wrth ei gwaith bob dydd,
Hi sy'n creu o'r edau frethyn lliwiog.
Ac mae'r oriau'n hir a llawn,
Ac mae'r oriau'n ddail sy'n cwmpo lawr....
...ar y dwr sy'n crwydro draw drwy'r bore niwlog.

Dim ond merch o'r ffatri wlan,
Wrth ei gwaith bob dydd,
Heb sylwi dim ar y byd mawr oddi allan.
Roedd ei gwallt mor ddu a thlws,
Fel ryw freuddwyd rhyfedd yn fy nghwsg,
Ond mae'n gwneud gwaith dyn bob dydd am ei chyflog.

6. Cymru Contimental

Mae'n amser i godi a chwalu ystrydebau
Gorau Gymro, Cymro oddi gartra'
A phan dwi adra dwi dramor yn fy mhen
A mae popeth sydd i fod yn ymddangos o fy mlaen

OK di'r tywydd ddim yn wastad caniatu
I fobl eistedd allan ac yfed yn yr haul
Ond di'r hynny ddim yn reswm chwaith i gwyno am y bach
Awn i ben y mynydd i chwa yr awyr iach.

Be sy bod efo bod yn bohemian?
Angerdd syn bwysig nid agenda arian
Bytwch y pysgod or mor sydd o'n hamgylch
Y cynnyrch lleol sydd yn ein dalgylch
Tynnwch y brwsh o din dorbarth canol
A bod yn falch o fod yn wahanol

Peidiwch a gadael i betha foddier da
Cos dyna pan mae'r system yn yn gallu bod yn gas
Cadw ysbryd, ysbryd yn y gan
Ysbryd yn y galon ac ysbryd yn y Llan

7. Fiskesteinen

Cyfieithiad i'r Norwyeg gan *Siri Wigdel*
Translation from Norwegian by *Siri Wigdel*

Fishing boats, Sailing boats, Small boats, Big boats,
On the silver waves of Fiskesteinen,
At night they're anchored, some are tied
They stay the night at harbour.
But the sails and ropes they touch the wind
And cry out for their masters,
To sail again to the morning mist and disappear like
ghosts.

Hear the wind, hear the wind the wind of Fiskesteinen.

On the land the children dream
About the wonder of their voyage,
They play the role of sailors on the shores of Fiskesteinen
They cannot wait to reach the age
When all they'r dreams come true,
And be called by howling sails and ropes like all their
fathers do.

Far away on the horizon, shapes start to emerge,
Fiskesteinen harbour becomes full of cheer and waves.
The boats come in they're full of fish
And tales of wind and storm,
The fishermen they settle down and drink themselves to
sleep.

They dream about the beauty of their Fiskesteinen women,
The culture of their fathers and the future of their children.
They dream about the sails and ropes that carry them to
sea,
And wake up to their howling cry and live their childhood
dream.

8. Nansi Jones

Mae'r hen fyd ma fel ystol,
Rhai yn mynd i fyny a rhai yn dod i lawr.
Os ddoi di nabod Nansi Jones,
Ti siwr o lithro lawr ei nadroedd.

Mae hi licio chwarae o gwmpas,
Mae ganddi fagnet i herian dy gompas,
Os ei di yfed efo hi,
Wel pacia dy fagia fy ffrind

**Cos yn y bore fy' di ar ryw draeth,
Yn droed-noeth ac yn clawd
Ma'i wedi cymyd dy betha di,
Ac yn yfed efo dy wraig.**

Rhaid ti fod yn ofalus,
Dwi'n gwybod ei bod hi'n rhywiol,
Dwi gwybod ei bod hi'n dlws
Mae hi'n gwybod hyn ei hun,
Ti'n weld o yn ei gwefysau.

Mae hi'n neud ti deimlo fel bo hi isho chdi a,
Neud ti anghofio dy safonau.
Ac os ddisgyni di iw llygaid hi,
Mae na felltith arnat fy ffrind.

**Sy'n gwneud ti ddawnsio ar ei bys bach,
Yn ei diddanu fel clown y ffair,
A gerdded y llinyn tyn,
Heb rwyd dan dy draed.**

Jyst un noson efo Nansi Jones,
Yn gallu chwalu dy obeithion, dychryn dyn o'i drôns!

9. Pam fod Eira'n Wyn?

Dafydd Iwan

Pan fydd haul ar y mynydd,
Pan fydd gwynt ar y mor,
Pan fydd blodau yn y perthi,
A'r goedwig yn gor.
Pan fydd dagrau f'anwylyd
Fel gwllith ar y gwawn,
Dwi'n gwybod bryd hynny ,
Mai hyn sydd yn iawn.

**Rwyn gwybod be 'di rhyddid,
Rwyn gwybod be di'r gwir,
Rwyn gwybod be di cariad
At fobl ac at dir;
Felly peidiwch a gofyn cwestiynau dwl,
Peidiwch edrych arna'i mor syn
Dim ond ffwl sydd yn gofyn
Pam fod eira yn wyn.**

Pan fydd geiriau fy nghyfeillion,
Yn felys fel y gwin,
A'r seiniau mwyn cynefin,
Yn dawnio ar eu min,
Pan fu nodau hen alaw
Yn lleddfu fy nghlyw,
Dwi'n gwybod beth yw perthyn,
A dwi'n gwybod be 'di byw!

Pan welaf graith y glöwr,
A'r gwaed ar y garreg las,
Pan welaf lle bu'r tyddynwr
Yn cribo gwair i'w das.
Pan welaf bren y gorthrwm
Am wddw y bachgen tlawd
Rwyn gwybod bod rhaid i minnau,
Sefyll dros fy mrawd.

10. Cân Drist

Philip Lee Jones

Dwi di bod yn ceisio sgwennu can hapus
Mae'r noda dwi yn taro yn swinio'n drist
Efalla' bod na rwbath bach oi le
Dwi di bod yn ceisio trwy'r dydd
Dwi di bod yn ceisio ond dwi'n gaeth i'r teimlad trist.

Di'n mysedd methu deud celwydd mae hyn yn wir,
Maer noda yma'n onest a ma'r geira'n fyr.
Mae nghalon i yn torri heb dy wen,
Dwi di bod yn ceisio trwy'r dydd,
Dwi di bod yn ceisio ond dwi'n gaeth i'r teimlad trist.

11. Deja Vu (Breuddwyd Gwen)

Codi yn y bore meddwl am y noson gynt oedd wedi canu arna i,
Gwyneb yr hen gloc larwm a'i chwerthin cras.
Llyfnder y dail tu allan yn lleddfu'r boen wrth stopio'r swm,
O'n i wedi meddwl dwy waith neithiwr ta be?

**Breuddwyd am efeilliaid? Ta dwbl y dos?
Dwi meddwl na dyna ges i yn nyfnder y nos.**

**O Roedd o'n hyfryd, Daja Vu mewn breuddwyd,
Meddwl na dyna ges i yn nyfnder y nos.**

Mewian y gath fel cyfarth y ci, oes na leflar yn y ty?
Mae'r cur ma yn fy mhen yn atal deud.
Haul yn gry dwisho sbectol ddu, mae na lanast ar hyd y siop,
Dwisho mynd yn ol i gysgu i gofio'r freuddwyd na.

**O Roedd on hyfryd, Deja Vu mewn breuddwyd,
Meddwl na dyna ges i yn nyfnder y nos.
Profiad cymysglyd, Deja Vu mewn breuddwyd,
Angen un arall Rendez Vous ar fy llw.**

**Deja Vu, wedi profi hyn or blaen dwi siwr.
Deja Vu mewn breuddwyd.**

12. 'Da ni'n gwrando eto?

Mae'n anodd weithia, peidio bod yn ragrithiwr,
Pan gen i gar ac yn poeni am gyflwr yr ozon,
A ma gallu swinio'n gaws
pan ma'n haws mynd lawr fordd i brynu papur yn y car,
A mygu, mygu'r Fam Ddaear
Tagu, tagu, tagu, ti'm yn teimlo'r edifar?
'Swm i licio gallu cerdded nol a mlaen i bob man,
Ond mae'r siop fach leol wedi cau, pam?
Be di'r ateb? Troi yn hermit?
Ta dod at ein coed a cicio'r habit?

Mae'r Sub Sahara yn sychach nac erioed,
A dail y gwanwyn yn gynt ar y coed,
A byddinoedd y pwera off i penna'n
llosgi tanwydd isho mwy o danwydd,
I losgi yn eu pickups, pickups 100 litr,
Sgwini os di'n bosib pigo hyn i fyny?
A sylwi be sy'n bwisig cyn rhoi'r gyllell yn y cefn,
Mae'r hinsawdd wedi lladd mwy na 9/11.
Ma lot yn dechra deffro o'r freuddwyd,
Ond mae rhai dal i gysgu a'u dwylo gwaedlyd.

**Clyw y Fam yn crio'n arw,
Clyw ei chri yn y tywydd garw.
Tonau'r mor yn dymhestlog heno,
'Di'n gofyn os da ni'n gwrando eto?**

Mae tanwydd yn mynd wrth gynhesu'r byd yn eang,
Dwi rhoi gormod yn y bin ac yn byw ar fand eang,
A mae angen y pres i neud y lles sydd ei angen a gosod melin
wynt a solar panel ar y to
Teledu, teledu ar standby,
Gola gola gola fel goleudy ar steroids
Nain a Taid byth yn llucho petha ffwrdd,
Defnyddio petha eto neu eu cadw dan y bwrdd,
Ail-ddenyddio'r petha hen,
Ail-gylchu cyn iddo fod yn derm

Mae'r hinsawdd wedi newid ar y ddaear ers y dechra,
Ond y niwad hylla yn y can mlynadd ddwytha,
Gwbod fod on gaws pan haws tynnu coes a chwerthin ar y rhai
sydd yn trio newid meddwl,
Y bobol, y bobol sy'n rheoli
Y bobol efo'r llwyfan i lais y werin,
Y bobol sydd yn meddwl bo nhw rhedeg y byd,
Ond mae'r byd yn troi yn y gofod, ar ei hun
Y bunt ydi'r cynta i'r felin bob tro,
Sy'n bwydo barusrwydd i benna bob bro.

13. Yr Eira Mawr.

Mae dolig ar chwal ers yr haf,
Ers i mi weld Rudolf a Santa,
Yn atgoffa y bobl bod dolig yn dod,
Yn gwenu ar shilff yr archfarchnad.

Mae'n hurt ond i'r plant mae on wyrth,
Anrhegion a gwleddoedd pob ffurf,
Dathlu geni'r arglwydd mawr,
Ta dathlu rhoi niwad i'n cyrff.

Drwy'r ffenest mi welaf y sbri,
Awyrgylch yn llenwi y ty.
Teulu dedwydd mewn tinsel rownd tan.
Dy nhw ddim y oer ar y stryd,

**O plis gai geiniog neu coes yr wydd
Mae'r eira mawr yn dod.
Mi ysgubai eich dail,
Mi ganaf garol,
Mae'r eira mawr yn dod.**

Mae na griw yn y dafarn na'n chwil,
Wedi gorffen eu gwaith am yr wyl,
Dwi'n cofio y teimlad, mae o'n deimlad da,
Braf ydi ffrindia'n cael hwyl.

Arhosaf yn fama am chydig,
Mae'n siwr bod nhw cofio pwy ydwi,
A cynnig ryw Jameson fach neu ddwy,
Sa hynny'n crisialu fy Nolig.

Mae na gwpl yn gadael am adra/e
Mewn cotia a sgarffia mawr tew,
Ac o dan yr uchelwydd dan y ser y ne,
Cusan fach.

14. Iesu Grist o Nefoedd yr Adar

Iesu grist o nefoedd yr adar,
Beth ar dy gwmwl sydd yn digwydd fan hyn?
Mae nhw di deutha i na chdi di'n arglwydd ni.
Trio ngora i fod yn dda, a byw er mwyn fy oes.

Ond llosgi mae y tanwydd yn fy injan, a llygru'r holl elfennau yn y ne,
Mae'r arwyddion yn y newyddion, wedi'n rhybuddio ni
Ond mae rhai efo pwera angen llosgi mwy

Iesu Grist o nefoedd yr adar,
Beth ar dy gwmwl sydd yn digwydd fan hyn?
Mae nhw di deud bod rhyfela dan fendith dy Dad.
Ma Bob Dylan wedi sbonio hyn, ond ydi'r oesau'n newid? Na.

Hawdd ydi dawnsio ac anghofio,
anghofio'r argyfyngau sgennym ni,
Oes mae na ryfel, a mae trais di bod erioed,
A'i dyna pam ot tin pregethu?

Iesu Grist o nefoedd yr adar,
Beth ar dy gwmwl sydd yn digwydd fan hyn?
Mae nhw di deutha'i na chdi ydi'r un i ddilyn,
Ond mae na rai syn dilyn Allah, dilyn Don, dilyn Buddha?
A rhai sy ddim, ond dilyn calon eu hunan?

Pam na ddoi di lawr o dy gwmwl,
Mae nhw'n deud bod na newyn yn Affrica,
A phan ddaw y dydd, pan fydd bwyd y byd di mynd
Fy' di yna efo dy bysgod a dy fara?

Iesu Grist o nefoedd yr adar,
Beth ar dy gwmwl sydd yn digwydd fan hyn?
Mae nhw di deutha i na chdi di'n arglwydd ni?
Trio ngora i fod yn dda a byw er mwyn fy oes.

15. Y Daith

Philip Lee Jones

Dwi di bod yn trafeilio, hyd a lled y wlad,
Ond mae neis cael bod adra, o flaen y tan.
A ma di bod yn brofiad ar y daith efo chi,
Clywad jocs ac yn chwerthin efo Gary Hipi.

Pawb yn canu yn y gytgan
Rhai yn canu'r geiria i gyd
Rhai yn eistedd yn y gornel yn gwrando yn astud
Chi fydd llais cenhedlaeth i ddod
O chi'n gwybod?

Dwi di cal chwerth go iawn, croeso cynnes gan bawb
Y bobl tlws, y werin datws.
Ma na ddyfodol, ond mae rhai bobl yn flin
Ond mae y rhan fwyaf yn hapus a chytun.

Ma' di bod bod yn bleser, teithio efo chi,
Ffrindia hen fel aur, yn disgleirio fel yr haul.
Calon hapus, calon lan, yng Nghymru fach.